Ministry
of Defence

# Partneriaeth Gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn



# Partneriaeth gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn:
## manteision amlwg i gyflogwyr

Mae llawer o ffyrdd y gall cefnogi'r Weinyddiaeth Amddiffyn helpu eich sefydliad i ddod yn gryfach ac yn fwy llwyddiannus.

### Hyfforddiant trosglwyddadwy o safon fyd-eang – a'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn talu, ac nid chi




Rydym yn hyfforddi - ar bob lefel. Mae hyfforddiant milwrol yn datblygu'r union sgiliau craidd y byddech chi'n eu gwerthfawrogi fwyaf yn eich gweithwyr: hunanhyder, penderfyniad, gwaith tîm, arweinyddiaeth a'r gallu i weithio o dan bwysau. Mae'r Sefydliad Rheolaeth Siartredig yn amcangyfrif y byddai hyfforddiant cyffelyb yn costio £8,000 i chi.

### Gweithwyr iach a dyfeisgar




Mae gweithwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant milwrol yn iach, yn gallu canolbwyntio, yn gadarnhaol o ran agwedd ac yn awyddus i weithio. Mae'n rhaid iddyn nhw fod felly. Mae llawer yn gweithio mewn lleoliadau ac mewn sefyllfaoedd sy'n gofyn am synnwyr cyffredin cadarn, hyblygrwydd, parch at eraill, sgiliau cyfathrebu da, teyrngarwch, gonestrwydd a dewrder.

### Sgiliau achrededig



Mae arweinyddiaeth, rheolaeth, sgiliau hyfforddi ac asesu, TG, sgiliau iaith, iechyd a diogelwch, trwyddedau gyrru, cymorth cyntaf ynghyd â chymwysterau sy'n gysylltiedig â meysydd fel arlwyo a pheirianneg ymhlith y sgiliau technegol niferus rydym yn cynnig hyfforddiant ynddynt, gan gynnig pob math o unigolion disglair i'ch gweithlu. Mae llawer o'n hyfforddiant yn cael ei gydnabod a'i achredu'n genedlaethol.

## Gwella recriwtio a chadw gweithwyr




Gall dangos cefnogaeth i'r Weinyddiaeth Amddiffyn helpu i ddenu ceiswyr gwaith â doniau, gan wella, a thrwy ansawdd eich recriwtio. Mae cefnogaeth ar gyfer swyddogaeth ddeuol Milwyr Wrth Gefn ac ar gyfer Oedolion sy'n Gwirfoddoli gyda'r Cadetiaid yn cynnig amrywiaeth eithriadol a datblygiad personol na fyddai ar gael yn eich sefydliad fel arall. Gall hyn wella'r gallu i gadw gweithwyr.

## Cymeriad




Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cydnabod cefnogaeth ar bob lefel. Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog a'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr yn rhoi cyfle unigryw i gyflogwyr i addunedu, ymrwymo, dangos a hyrwyddo cefnogaeth i'r Weinyddiaeth Amddiffyn a gwella eu henw da corfforaethol gyda gwobr aur, arian neu efydd.

## Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol




Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wrth galon cymunedau. Mae dod yn sefydliad sy'n cydweithio gyda'r Lluoedd Arfog yn rhoi cyfle i chi ddefnyddio rhai o'ch amcanion eich cyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol i gefnogi'r Weinyddiaeth Amddiffyn.



## Timau effeithiol

Mae gan unigolion sydd â phrofiad mewn gwasanaeth milwrol allu heb ei ail i weithio mewn tîm a'r gallu i arwain a dilyn; gwerthoedd sy'n cael eu trosglwyddo'n rhwydd i'ch sefydliad.



# Beth mae cyflogwyr yn ei ddweud:

"Rydym yn rhoi cefnogaeth lawn i gydweithwyr sy'n dewis bod yn Filwyr wrth Gefn ochr yn ochr â'r swyddi sydd ganddyn nhw yn yr Ymddiriedolaeth. Mae ymroddiad ac ymrwymiad y cydweithwyr hyn yn y ddwy swyddogaeth yn gymeradwy iawn. Nid yn unig y mae milwyr wrth gefn yn cyflawni swyddogaeth hanfodol ar gyfer ein lluoedd arfog, ond rydym ni a'n gweithwyr yn cael budd mawr o lawer o'r sgiliau trosglwyddadwy niferus y maen nhw'n eu dysgu ac yn eu cyfrannu at ein hysbytai, yn arbennig felly, y gwaith tîm, sgiliau arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau. "

Julia Tabreham - Cyfarwyddwr Anweithredol Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Prifysgol Nottingham

"Gyda diogelwch a chadernid isadeiledd, cyfleusterau a systemau allweddol y DU dan fygythiad parhaus, mae sgiliau a gwybodaeth ein staff Lluoedd Arfog yn bwysicach nag erioed i Atkins. Mae eu cyfraniad mawr i'n cwmni, ein cleientiaid a'r genedl yn werthfawr tu hwnt."

Nick Roberts - Prif Weithredwr y DU ac Ewrop Atkins

"Mae gennym nifer fawr o weithwyr sy'n gwasanaethu ac aelodau blaenorol o'r lluoedd arfog yn gweithio i ni, ac maen nhw'n cynnig manteision di-rif i'n busnes. Rydym yn falch iawn mai ni yw'r archfarchnad gyntaf i arwyddo Cyfamod Corfforaethol y Lluoedd Arfog, a byddwn yn ceisio gwneud mwy bob amser ar gyfer ein harwyr sy'n peryglu eu bywydau'n gyson er mwyn amddiffyn ein gwlad."

Robin Terrell - Prif Swyddog Cwsmeriaid, Tesco

''Mae Rhaglen Bontio a Thalentau Milwrol Deloitte wedi'i sefydlu ers 2012 ac rydym yn parhau i weld bod diddordeb yn y rhaglen a chynnydd yn y galw am gefnogaeth i bontio. Mae llawer o waith angen ei wneud ac rydym yn falch iawn o wneud ein rhan ochr yn ochr â'n pobl, ein cleientiaid a ffrindiau'r rhaglen."

Chris Recchia - Partner ac Arweinydd Rhaglen Bontio a Thalentau Milwrol Deloitte

"Mae gan BT draddodiad hir o gefnogi Lluoedd Arfog Prydain, gan gynnwys cyflogi dros 2,000 o gyn-filwyr dros y blynyddoedd diwethaf ac oddeutu 400 o Filwyr wrth Gefn. Credwn fod cefnogi ein Milwyr wrth Gefn ac aelodau blaenorol o'r Lluoedd Arfog yn fanteisiol i ni fel cyflogwr, ein gweithwyr ac i'r gymdeithas ehangach. Mae trosglwyddo sgiliau, gwybodaeth a datblygiad proffesiynol yn golygu bod pawb ar eu hennill. Rydym yn falch o helpu'r bobl ddewr hyn i gael y cyfle i gysylltu – ac amddiffyn – Prydain."

Clive Selley - Prif Swyddog Gweithredol Openreach

"Rydym wedi bod yn cefnogi'r Lluoedd Wrth Gefn ers 2013, ac wedi gweld bod yna fanteision niferus i bawb. O ganlyniad i'w hyfforddiant o'r radd flaenaf, mae Milwyr wrth Gefn yn gryf eu cymhelliant, yn drefnus iawn, ac yn arweinwyr da sydd eisiau llwyddo – nodweddion sy'n cael effaith gadarnhaol ar gydweithwyr a'r gwaith bob dydd. Rydym yn gobeithio cyflogi mwy o Filwyr wrth Gefn yn y dyfodol."

Eddie Mewies - Rheolwr Gyfarwyddwr Peirianwyr Datblygu Ymgynghorol M-EC







# Cyflogwyr a'r weinyddiaeth Amddiffyn – Y cynnig

## Ydych chi'n fusnes bach neu ganolig (BbaCh), yn sefydliad yn y sector cyhoeddus, yn elusen neu'n fusnes corfforaethol mawr?

Gall eich sefydliad – beth bynnag yw ei sector diwydiant neu ei faint, ddod yn rym pwerus ar gyfer newid cadarnhaol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Mae Amddiffyn yn awyddus i sefydlu cysylltiadau strategol agored gyda chyflogwyr, gan deilwra cyfleoedd partneriaeth i gyd-fynd ag anghenion cyffredin a nodau busnes.

Ymunwch â rhai o sefydliadau mwyaf dynamig y DU sydd eisoes yn mwynhau perthynas gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn ac yn gweithio tuag at ganlyniadau rhagorol.

# Mae mentrau allweddol ar gyfer cefnogi cyflogwyr yn cynnwys:

- Cyflogi milwyr wrth gefn a chefnogaeth drwy bolisïau AD hyblyg
- Cyflogi gweithwyr y gwasanaeth arferol ar ddiwedd eu cyrchoedd a'u helpu i ailsefydlu, mewn cydweithrediad â'r Bartneriaeth Newid Gyrfa
- Cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer y rhai sy'n gadael y lluoedd arfog gyda newidiadau mwy heriol, yn cynnwys y rhai a glwyfwyd, y rhai a anafwyd a'r rhai sy'n sâl
- Cyflogi gwŷr neu wragedd/partneriaid sifil gweithwyr y lluoedd arfog
- Datblygu sgiliau ar y cyd mewn meysydd allweddol, megis peirianneg, med dygaeth, cyfathrebu, seiberddiogelwch, ac ati
- Cyfleoedd gyrfa a chefnogaeth ar gyfer Cadetiaid ac Oedolion sy'n Gwirfod doli gyda'r Cadetiaid.
- Mynd i'r afael ag anfanteision sy'n wynebu gweithwyr y lleoedd arfog yn y farchnad defnyddwyr

# Mae gweithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn hawdd

Mae tîm Rheoli Cysylltiadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn (RhPA) yn ddull hwylus i gyflogwyr y DU gychwyn partneriaeth gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Gall y tîm helpu eich sefydliad i greu'r partneriaethau cywir a gweithredu fel pwynt mynediad unigol a dibynadwy ar gyfer holl fentrau personél y Weinyddiaeth Amddiffyn.

O'r eiliad y byddwch yn mynegi parodrwydd i gefnogi amddiffyn, bydd y tîm yn gweithio gyda chi er mwyn teilwra cyfleoedd i ddiwallu'ch amcanion chi.

## Ydych chi eisiau gwybod mwy ynglŷn â sut y gallwch weithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn?

**Rheoli Cysylltiadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn (RhPA):**

Pwynt mynediad unigol ar gyfer gwybodaeth a chefnogaeth i gyflogwr, a phartner y gellir ymddiried ynddo i lunio cysylltiadau strategol gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

**Ewch i: www.gov.uk/mod/employer-relations**

**Ffoniwch: 020 7426 8383**

**E-bostiwch: employerrelations@rfca.mod.uk**

Er mwyn gweld mwy o wybodaeth am y Lluoedd Arfog ewch i:

**www.royalnavy.mod.uk**

**www.army.mod.uk**

**www.raf.mod.uk**

26/2/16